SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Priti Patel MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf/Our Ref: AJ/HW/1916

29th Awst/August 2019

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

**Y berthynas dlawd: Ymateb yr heddlu a GEG i droseddau yn erbyn pobl hŷn.**

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar Adroddiad Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub sef "Y berthynas dlawd: Ymateb yr heddlu a GEG i droseddau yn erbyn pobl hŷn."

Mae prif ganfyddiadau'r ymchwiliad yn awgrymu bod gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ddealltwriaeth brin o anghenion dioddefwyr hŷn. O ganlyniad i'r ymchwiliad, mae tri argymhelliad gan yr ymchwiliad i wella eich gwasanaeth.

Yn gyntaf hoffwn drafod y dewis o eiriau ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae defnyddio'r term 'perthynas dlawd' yn sen ac yn ddiangen. Rwy'n gwerthfawrogi bod yr adroddiad yn nodi nad oes ffocws cenedlaethol ar ddioddefwyr troseddau hŷn. Serch hynny mae heddluoedd yn ystyried bregusrwydd ar sail pob achos yn unigol.

Rwyf yn falch bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cael ei enwi o fewn yr adroddiad er mwyn tynnu sylw at fanteision y broses blaenoriaethu troseddau. Mae'r broses yn cydnabod nad yw pob trosedd a dioddefwr yr un peth ac felly nid oes modd delio ag ymchwiliadau yn yr un modd. Mae sgiliau a gwasanaethau gwahanol yn cael eu nodi o fewn y model hwn.

Dear Home Secretary ,

**The poor relation: The police and CPS response to crimes against older people.**

As required by statue, I am writing to you with my comments on Her Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service Report "The poor relation: The police and CPS response to crimes against older people".

The main findings of the inspection suggest that forces in England and Wales have a limited understanding of older victim's needs. As a result of the inspection, there are three recommendations by the inspectorate to improve this service.

Firstly I would like to address the choice of wording for this report. The use of the term 'the poor relation' is degrading and unnecessary. I appreciate that the report identified that there is no national focus on older victims of crime however forces do consider vulnerability on a case by case basis.

I am pleased that North Wales Police have been identified within the report to highlight the benefits of the crime allocation triage process. This process recognises that not all crimes and victims are the same and therefore neither can investigations be dealt with in the same way. Different skills and services are identified within this model.

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**
Ebost / Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**

Defnyddir y dull hwn wrth ddelio â digwyddiadau o dwyll sy'n drosedd y mae pobl hŷn yn dioddef ohono yn aml. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi datblygu nifer o brosesau i ddelio â digwyddiadau o dwyll gan gynnwys penodi Swyddog Diogelu Cam-drin Ariannol. Mae'r rôl yn canolbwyntio ar ddioddefwyr bregus ac yn cynnig cefnogaeth i swyddogion rheng flaen wrth ddelio â digwyddiadau o dwyll. Byddaf yn ehangu'r gwasanaeth hwn o fewn y flwyddyn nesaf ac yn cyflwyno swyddog cefnogi twyll penodedig i'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr.

This model is used when dealing with incidents of fraud which is a crime commonly suffered by older people. North Wales Police have developed a number of processes to deal with fraudulent incidents including the appointment of the Financial Abuse Safeguarding Officer. This role focusses on vulnerable victims and provides additional support to front line officers when dealing with fraud incidents. I will be expanding this service within the next year and introducing a dedicate victim of fraud support officer into the Victim’s Help Centre.

Mae'r argymhelliad cyntaf yn nodi o fewn chwe mis y dylai Prif Gwnstabliaid wneud yn siŵr bod asesiadau anghenion yn cael eu cwblhau bob amser a bod cyfeiriadau yn cael eu gwneud lle bo'n briodol. Cytunaf fod darparu dioddefwyr troseddau â mynediad i wasanaethau cefnogi yn hanfodol a byddaf yn monitro'r heddlu drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol i sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei gwblhau.

The first recommendation states that within six months Chief Constables should make sure that the victim needs assessments are always completed and referrals are made when appropriate. I agree that providing victims of crime with access to support services is essential and I will monitor the force via the Strategic Executive Board to ensure that this recommendation is completed.

Yn ôl yr arolygiaeth nid yw'r heddluoedd yn gwybod beth yw'r galw presennol na'r galw i ddod ar gyfer trefniadau diogelu oedolion. Mae argymhelliad i bob Prif Gwnstabl gynnal dadansoddiad o'r galw presennol am ddiogelu oedolion a'r galw i ddod.Dylai gael ei gynnwys o fewn Datganiadau Rheoli'r Heddlu. Byddaf yn gofyn am ddiweddariadau ar gynnydd yr argymhelliad yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol.

The current and future demand for adult safeguarding arrangements is deemed unknown by forces according to the inspectorate. There is a recommendation for all Chief Constables to conduct analysis of the current and future demand for adult safeguarding and should be included within Force Management Statements. I will request regular updates on the progress of this recommendation at my Strategic Executive Board.

Crybwyllwyd gofidion am y ffaith nad oedd gwasanaethau cefnogi yn gweithio mor dda ag y dylent gan nad yw'r heddlu bob amser yn atgyfeirio dioddefwyr pan ddylent. Argymhellwyd fy mod yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i adolygu’r gwasanaeth dioddefwyr ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae Canolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru yn derbyn atgyfeiriadau awtomatig yn ddyddiol oddi wrth

Concerns were raised around support services not working as well as they should because the police don’t always refer victims when they should. It has been recommended that I work with North Wales Police to review the current victim’s service to ensure that it is effective and efficient. The North Wales Victim Help Centre receives an automatic referral from North Wales Police for all victims of crime on a daily basis. The Help Centre provides an

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer dioddefwyr troseddau. Mae'r Ganolfan Cymorth yn darparu gwasanaeth gwell i ddioddefwyr hŷn ac yn sicrhau eu bod yn cael blaenoriaeth i atal unrhyw oedi ym maes gwasanaethau ôl-ofal. Rwyf yn fodlon bod y gwasanaethau yn eu lle i gefnogi dioddefwyr troseddau hŷn yng Ngogledd Cymru.

enhanced service to older victims and ensures that they are prioritised to prevent any delays in aftercare services. I am satisfied that services are in place to support older victims of crime in North Wales.

Yn gywir

Yours sincerely

Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu / Police Commissioner

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**
Ebost / Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**